



Bwrdd Diogelu Annibynnol
Cenedlaethol Cymru
National Independent
Safeguarding Board Wales

Cyfarfod y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Cofnodion y cyfarfod

Dyddiad: 12 Awst 2026 **Amser:** 09.30am Cyfarfod Teams

Yn bresennol:

- Dave Street (Cadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol)
- Lin Slater (Is-gadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol)
- Desmond Mannion (Aelod o'r Bwrdd)
- Artie Meakin (Aelod o'r Bwrdd)
- Carys James (Aelod o'r Bwrdd)
- John Williams (Aelod o'r Bwrdd)
- Emma Logan (Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Cenedlaethol)

1. Croeso ac ymddiheuriadau

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r aelodau i'r cyfarfod.

2. Datgan gwrthdaro o ran buddiannau

Cafodd yr aelodau eu gwahodd i ddatgan unrhyw wrthdaro o ran buddiannau.

Soniodd un aelod wrth y Bwrdd am waith sy'n mynd rhagddo yng nghyswllt un ymchwiliad, ond nad oedd hynny'n golygu unrhyw wrthdaro o safbwynt y cyfarfod hwn nac o safbwynt unrhyw waith gan y Bwrdd ar hyn o bryd. Cytunwyd y byddai hynny'n cael ei nodi ac y byddai'r aelod yn tynnu'n ôl o unrhyw drafodaethau yn y dyfodol lle gallai gwrthdaro godi.

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau pellach.

3. Cofnodion a champau gweithredu'r cyfarfod blaenorol

Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol eu hadolygu a'u cymeradwyo i'w cyhoeddi.

Cafodd camau gweithredu'r cyfarfod blaenorol eu hadolygu. Roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi'u cwblhau neu'n cael eu hadlewyrchu yn eitemau'r agenda bresennol.

Cytunodd y Bwrdd y dylai cofnodion o drafodaethau â chyflwynwyr allanol yn y dyfodol ddangos yn glir:

- Ddiben eu presenoldeb.
- Unrhyw ddeilliannau neu gamau gweithredu a gododd.
- Sut y mae'r Bwrdd yn bwriadu defnyddio'r wybodaeth a gafwyd.

Cytunwyd ar hynny er mwyn gwella tryloywder a dangos effaith.

4. Adroddiad thematig ynghylch Adolygiadau Ymarfer Plant

Rhoddwyd diweddariad am yr adroddiad thematig ynghylch Adolygiadau Ymarfer Plant.

Roedd y prif bwyntiau'n cynnwys y canlynol:

- Roedd pwyntiau dysgu wedi'u cyflwyno yn lle argymhellion, yn dilyn trafodaethau blaenorol y Bwrdd.
- Roedd fersiynau Cymraeg a Saesneg wedi'u cwblhau a'u cyflwyno ar gyfer gwaith dylunio terfynol.
- Mae digwyddiad bord gron wedi'i drefnu ar gyfer **22 Medi 2026**.
- Bydd y Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn cael eu gwahodd i gyflwyno enghreifftiau o heriau ac arfer da'n ymwneud â chyfathrebu â phlant a phobl ifanc.
- Bu'r aelodau yn trafod sut y gall dysgu o'r adolygiad thematig hybu gwaith ehangach ar lais, ymgysylltu a chyfranogi.

Nododd y Bwrdd fod adroddiadau o sawl Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn dechrau dangos eu bod yn cyd-fynd â phum cwestiwn allweddol a gytunwyd gan y Bwrdd.

5. Adolygiad o gryfhau llywodraethiant ym maes diogelu

Rhoddodd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd adborth yn dilyn cyfarfodydd â swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch yr adolygiad o lywodraethiant.

6. Cofnodi data am ddiogelu

Cafodd yr aelodau ddiweddariad ynghylch trafodaethau â Llywodraeth Cymru ynglŷn â data am ddiogelu ac ynglŷn â chasglu gwybodaeth.

Cytunodd y Bwrdd:

- Y dylai gweithdy data ar y cyd â Llywodraeth Cymru ddigwydd yn nes ymlaen yn y flwyddyn.
- Y dylai'r amseru adlewyrchu unrhyw ddatblygiadau sy'n codi o'r adolygiad o lywodraethiant, a chynigion ynghylch swyddogaeth ganolog yn ymwneud â gwybodaeth.

- Nodwyd bod ymchwil ychwanegol a gwaith cymharu'n digwydd ar draws y pedair gwlad.

Bu'r aelodau yn trafod pryderon am y canlynol:

- Cyfraddau atgyfeirio.
- Ansawdd gwybodaeth.
- Dehongli data.
- Pwysigrwydd peidio â dod i gasgliadau gor-symml o'r prif ffigurau.

Cytunodd y Bwrdd y byddai'n fuddiol ymgysylltu ymhellach ag arbenigwyr academiaidd ac ymchwilwyr.

7. Adroddiadau blynyddol

Mae adroddiadau blynyddol rhanbarthol yn dechrau cael eu cyflwyno.

Bu'r drafodaeth yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Symleiddio'r gofynion ar gyfer adroddiadau blynyddol.
- Gwella cysondeb rhwng adroddiadau.
- Sicrhau bod adroddiadau blynyddol yn dangos effeithiolrwydd yn hytrach na chydymffurfiaeth yn unig.

Rhodddwyd diweddariad ynghylch y gwaith a wneir i adolygu adroddiadau blynyddol a nodi cyfleoedd i'w gwella.

At hynny, bu'r aelodau yn trafod system ddrafft ar gyfer cofnodi gweithgarwch aelodau'r Bwrdd drwy gydol y flwyddyn, er mwyn helpu i lunio adroddiadau yn y dyfodol.

Bydd templed diwygiedig wedi'i symleiddio yn cael ei gynhyrchu a'i dreialu.

8. Cynnydd yr ymchwiliad i gangiau grŵmio

Nododd y Bwrdd ddatblygiadau diweddar o ran yr ymchwiliad.

Tynnodd y drafodaeth sylw at themâu sy'n codi dro ar ôl tro ynghylch y canlynol:

- Llais.
- Gwrando ar blant a phobl ifanc.
- Methiannau o ran cyfathrebu.
- Cyfleoedd a gollwyd i glywed pryderon ac ymateb iddynt.

Roedd yr aelodau'n cytuno bod y canfyddiadau'n cyd-fynd yn agos â'r gwaith dysgu a nodwyd drwy adolygiadau diogelu eraill a gwaith thematig.

9. Ymchwiliadau cyhoeddus y DU: Southport a Nottingham

Bu'r aelodau yn trafod dysgu newydd yn dilyn y ddau ymchwiliad.

Roedd y themâu a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- Rhannu gwybodaeth.
- Asesu risg.
- Gwneud penderfyniadau amlasiantaeth.
- Ystyriaethau o ran iechyd meddwl.
- Chwilfrydedd proffesiynol.

Cytunodd y Bwrdd ei bod yn ymddangos bod yna wersi cyffredin i'w dysgu ar draws gwahanol adolygiadau ac ymchwiliadau ac y dylid gofyn i Lywodraeth Cymru a oes unrhyw waith penodol ar y gweill i ystyried y goblygiadau i Gymru.

10. Adborth rhanddeiliaid ac adolygu rhanddeiliaid allweddol

Diweddariadau ynghylch rhanddeiliaid

Cafwyd diweddariadau o amryw gyfarfodydd rhanddeiliaid.

Adolygu rhanddeiliaid

Cynhaliodd y Bwrdd adolygiad manwl o drefniadau ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Cytunwyd:

- Bod y rhestrau presennol o rhanddeiliaid a chyfarfodydd wedi mynd yn rhy gymhleth.
- Y dylai cyfarfodydd rhanddeiliaid a chyfarfodydd gweithredol gael eu gwahanu'n gategorïau pendant.
- Y byddai rhestr lai o rhanddeiliaid, ac iddi fwy o ffocws, yn cael ei chynnal.
- Y dylai unrhyw ymgysylltu yn y dyfodol fod yn gymesur a chael ei gysylltu'n glir â blaenoriaethau'r Bwrdd.

At hynny, roedd yr aelodau'n cytuno bod angen trafodaethau yn y dyfodol ynghylch:

- Ymgysylltu â phartneriaid ym maes cyfiawnder troseddol.
- Ymgysylltu â'r sector gwirfoddol.
- Cydberthnasau strategol ehangach.

11. Diweddariadau ynghylch y Byrddau Diogelu Rhanbarthol

Ni chafwyd unrhyw ddiweddariadau o bwys oherwydd amseru cyfarfodydd Byrddau ar draws y rhanbarthau.

Nododd yr aelodau fod disgwyl i ddiweddariadau gael eu rhoi yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Cenedlaethol.

Unrhyw fater arall

Y Comisiynydd Pobl Hŷn

Gofynnodd y Cadeirydd am safbwyntiau cyn cyfarfod sydd ar ddod â'r Comisiynydd Pobl Hŷn.

Roedd y drafodaeth yn cynnwys:

- Diogelu pobl hŷn.
- Dementia a llais.
- Gofal mewn coridor ysbyty.
- Natur fregus gwasanaethau gofal cymdeithasol.
- Pwysau ar y gweithlu.
- Ystyriaethau o ran hawliau dynol.
- Hunanesgeuluso.
- Cam-drin domestig sy'n effeithio ar bobl hŷn.

Cynhadledd Ddiogelu Caerdydd a'r Fro

Roedd gwahoddiad wedi dod i law am gyfraniad gan y Bwrdd Cenedlaethol i gynhadledd ddiogelu a oedd ar ddod.

Cytunodd yr aelodau y byddai cymorth yn cael ei roi i ddatblygu cynnwys y cyflwyniad ac i fod yn bresennol.

Trefniadau partneriaeth yn y dyfodol

Nododd yr aelodau y bydd angen ystyried trefniadau a gweithgarwch caffael yn y dyfodol.

Bydd trafodaeth bwrpasol yn cael ei threfnu.